# Newyddion

Newyddion y CE 45 - Gaeaf 2014

**Cynnwys**


- Sut dylai'ch elusen godi arian?
  - Ystyried enw da eich elusen...
  - Helpu eich rhoddwyr i roi â hyder...
  - ...a ffeilio mewn pryd eleni
- Ydych chi'n gwybod am y newidiadau sydd i ddod i'r Ffurflen Flynyddol?
- Ydych chi wedi darllen ein hadroddiad ar fynd i'r afael â chamddefnyddio a chamreoli?
- Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni yn y dyfodol?
- Ydych chi'n gwybod sut i reoli gwrthdaro buddiannau?
- Cychwyn ymchwiliad i Afghan Heroes
- Ydych chi'n ystyried sefydlu cwmni elusennol neu SCE?
- Ydy'r ymagwedd cyfanswm enillion at fuddsoddi yn addas i'ch elusen chi?
- Gwarchod partneriaid


## Sut dylai'ch elusen godi arian?

Codi arian yw'r ffordd fwyaf proffil uchel, mae'n debyg, y bydd elusennau'n ymwneud â'r cyhoedd, ac felly mae safonau uchel yn hollbwysig. Mae Newyddion CE yn rhoi sylw i sawl peth allweddol y dylai ymddiriedolwyr ei wneud i sicrhau arfer gorau.

## Ystyried enw da eich elusen...

Bu erioed yn fwy pwysig i roddwyr gael hyder llwyr mewn sefydliad. Darllenwch ein canllaw codi arian a gwnewch yn siŵr bod eich codwyr arian yn deall y gofynion cyfreithiol ar gyfer casgliadau cyhoeddus a'r angen i gynnwys gwybodaeth allweddol ar ddeunyddiau ymgyrchu.

Gall enw da elusen gael ei niweidio'n ddifrifol os yw costau codi arian yn afresymol o uchel neu os nad yw'r ymddiriedolwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gall elusennau weithio gyda busnesau a chodwyr arian proffesiynol i godi arian neu ymwybyddiaeth gyhoeddus, ond mae'n rhaid iddynt ymgyfarwyddo â'r canllaw ymlaen llaw. Mae'r astudiaeth achos hon yn tynnu sylw at ble y gall pethau fynd o'i le, a beth y dylai ymddiriedolwyr ei wneud i osgoi'r meini tramgwydd hyn. Gweler hefyd ein canllaw ar godi arian a gwneud penderfyniadau. Bydd y Bwrdd Safonau Masnach, y Sefydliad Codi Arian a'r Heddlu i gyd yn cynnig cyngor defnyddiol ychwanegol ar godi arian.

## Helpu eich rhoddwyr i roi â hyder...

Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gymryd camau i sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n hyderus pan fyddant yn rhoi i'w elusen.

Yn ôl arolwg diweddar gan ICM, wedi'i gomisiynu gennym ni a'r Bwrdd Safonau Codi Arian, mae nifer o bobl eisoes yn cynnal gwiriadau cyn rhoi arian. Mae bron 4 o bob 10 rhoddwr yn y DU yn gofyn i'r rhai sy'n casglu at elusen am gerdyn adnabod neu'n gofyn cwestiwn am y sefydliad, mae bron 3 o bob 10 yn gwirio ei bod yn elusen gofrestredig ac mae 1 o bob 5 a ymatebodd yn edrych am y brandio tic FRSB 'rhoi â hyder', sy'n dangos bod gweithgareddau codi arian yr elusen wedi'u rheoleiddio. Ar ôl cwblhau'r arolwg, dywedodd bron 7 o bob 10 rhoddwr y byddent yn fwy tebygol o wneud gwiriadau yn y dyfodol.

Gweler ein canllaw am roi'n fwy diogel i gael rhagor o wybodaeth. I gael rhagor o wybodaeth am reoleiddio codi arian, cysylltwch â'r Bwrdd Safonau Codi Arian.

## ...a ffeilio mewn pryd eleni

Mae gan elusennau ddeg mis o ddiwedd eu blwyddyn ariannol i gyflwyno eu cyfrifon a'u ffurflenni blynyddol i ni. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ac yn ffactor allweddol o ran sicrhau ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau; yn ôl arolwg ICM ni fyddai 3 o bob 4 oedolyn (76%) yn rhoi i elusen oedd heb ffeilio ei chyfrifon mewn pryd. Ym mis Medi lansiwyd ymchwiliad dosbarth i elusennau sydd heb weithredu dwywaith (y rhai sydd heb ffeilio adroddiadau blynyddol, cyfrifon neu ffurflenni am ddwy flynedd neu ragor, o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.) Ar 24 Ionawr, roedd 10 elusen yn parhau i fod yn rhan o'r ymchwiliad. Ddechrau'r flwyddyn galendr yw'r amser pan fydd llawer o elusennau yn cyflwyno eu dogfennau, felly peidiwch â gadael pethau tan y funud olaf - anfonwch eich cyfrifon a gwnewch yn siŵr bod eich elusen yn parhau i fod yn atebol i roddwyr. Mae'n dramgwydd troseddol i beidio â gwneud hynny.

## Ydych chi'n gwybod am y newidiadau sydd i ddod i'r Ffurflen Flynyddol?

Yn 2013 ymgynghorwyd ar y newidiadau arfaethedig i Ffurflen Flynyddol 2014. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn rydym yn cynnwys rhai cwestiynau newydd yn y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2014, yn ogystal â dileu'r gofyniad i elusennau sydd ag incwm o dros £1 miliwn i gwblhau'r Ffurflen Gwybodaeth Gryno (SIR). Mae'r cwestiynau newydd yn gofyn i elusennau am wybodaeth ynglŷn â'r canlynol:

- ydyn nhw'n codi arian gan y cyhoedd
- oes is-gwmni masnachu ganddynt
- ydyn nhw'n talu un neu ragor o'u hymddiriedolwyr am gyflawni dyletswyddau ymddiriedolwyr
- oes rhai polisïau ganddynt yn eu lle
- ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio neu wedi cofrestru gyda chofrestrydd heblaw'r Comisiwn
- ydyn ni'n cyflawni dibenion yr elusen drwy roi grantiau yn bennaf

Mae'r cwestiynau hyn yn helpu i wneud eich elusen yn fwy atebol i'r cyhoedd ac maen nhw'n orfodol bellach. Mae ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys rhagor o fanylion.

Bydd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2014 ynghyd â'r canllawiau manwl ar gael ar ein gwefan yn fuan.

## Ydych chi wedi darllen ein hadroddiad ar fynd i'r afael â chamddefnyddio a chamreoli?

Roedd yr adroddiad blynyddol hwn o'n gwaith achos ymchwilio a chydymffurfio yn dangos bod twyll, camddefnydd ariannol a chamreoli ariannol yn nodweddu bron 80% o'n hymchwiliadau y llynedd. Roedd problemau llywodraethu difrifol gan gynnwys gwrthdaro buddiannau heb ei reoli, buddion ymddiriedolwyr a thorri dogfennau llywodraethol yn amlwg iawn hefyd.

Er mai lles gorau'r elusen sy'n agos at galonnau'r rhan fwyaf o ymddiriedolwyr, nid yw ymddiriedaeth yn ddigon ar ei phen ei hun - mae'n rhaid iddynt fod yn gyfrifol am ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol, goruchwylio gwaith yr elusen, a sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i sicrhau nad yw unrhyw arian yn cael ei gamddefnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn adnodd allweddol i ymddiriedolwyr; os nad oes gennych amser i'w ddarllen yn llawn, darllenwch yr astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at enghreifftiau o bethau sy'n mynd o'i le yn aml.

Mae ffigurau allweddol yn ein gwaith ymchwilio a chydymffurfio yn cynnwys:

**216** - sawl gwaith rydym wedi defnyddio ein pwerau statudol

**1,232** - nifer yr achosion cydymffurfio gweithredol a gwblhawyd

**171,662** - nifer y gwiriadau ymddiriedolwyr a gwblhawyd

**Wyddoch chi...** Ni ddylech fynd â symiau mawr o arian cymorth dramor eich hun, neu yn eich bagiau personol. Mae gwneud hynny yn golygu y gall eich elusen fod yn darged i grwpiau o derfysgwyr troseddol a gall godi amheuon swyddogion porthladd, gyda'r posibilrwydd o'r arian yn cael ei atafaelu. Gweler ein canllaw i gael rhagor o gyngor ar gymorth dramor.

## Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni yn y dyfodol?

Rydym wedi derbyn a chymeradwyo argymhellion adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n nodi gwendidau yn ein hymagwedd at ymchwilio a chofrestru. O ganlyniad, gallwch ddisgwyl i ni wneud mwy o waith monitro ac ymchwilio. Rydym eisoes wedi dechrau gwneud gwelliannau yn y meysydd hyn. Mae newidiadau allweddol yn cynnwys:

- gwneud mwy o waith achos difrifol - rhwng Ebrill a Rhagfyr 2013, cychwynnwyd 26 ymchwiliad statudol (mewn cymhariaeth, yn ystod y deuddeg mis 2012-13, cychwynnwyd 15 ymchwiliad)
- newid ein hagwedd at gasglu gwybodaeth yn ystod ymchwiliadau statudol - erbyn hyn rydym yn defnyddio ein pwerau i gyfarwyddo elusennau i ddarparu gwybodaeth, yn hytrach na gofyn iddyn nhw ryddhau gwybodaeth yn wirfoddol yn gyntaf
- ymchwilio a defnyddio pwerau cyfreithiol yn erbyn elusennau sydd heb fodloni eu gofynion adrodd dro ar ôl tro

Mae gennych chi amser i... leisio'ch barn am ymgynghoriad Swyddfa'r Cabinet ar estyn ein pwerau i fynd i'r afael â cham-drin elusennau. Mae'n canolbwyntio ar nifer o gynigion i'n helpu i reoleiddio yn fwy effeithiol. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 12 Chwefror 2014; i gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan Swyddfa'r Cabinet.

## Ydych chi'n gwybod sut i reoli gwrthdaro buddiannau?

Rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar ein hymchwiliad i Mayfair Charities Limited (rhif elusen gofrestredig 255281), ar ôl cychwyn ymchwiliad yng Ngorffennaf 2012 i ystyried sut oedd y trefniadau ariannol rhwng yr elusen, ei his-gwmnïau masnachu a chwmnïau sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwyr yn gweithio er budd yr elusen.

Roedd yr achos wedi dangos sut y gall gwrthdaro buddiannau arwain at benderfyniadau sy'n niweidio enw da'r elusen a ffydd a hyder y cyhoedd.

Gwelwn ormod o achosion lle mae gwrthdaro buddiannau'n cael eu trin yn wael neu heb gael sylw, ac mae'n hollbwysig bod ymddiriedolwyr yn sicrhau bod hyn yn cael ei reoli'n briodol, gan gynnwys datgan gwrthdaro buddiannau yn gynnar a'i atal rhag effeithio ar benderfyniadau'r ymddiriedolwyr. Rhaid i ymddiriedolwyr hefyd ddangos eu bod nhw wedi gwneud penderfyniadau yn annibynnol ar unrhyw fudd preifat neu gystadleuol. Darllenwch ein canllaw cyfredol, sy'n cael ei ddiweddaru yn 2014, yn dilyn ymgynghoriad.

## Cychwyn ymchwiliad i Afghan Heroes

Rydym wedi lansio ymchwiliad i Afghan Heroes (elusen gofrestredig 1132340). Sefydlwyd yr elusen, sydd hefyd yn defnyddio'r enw gweithredol True Heroes, i helpu aelodau o'r lluoedd arfog sy'n gwasanaethu a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd.

Rydym yn gwneud datganiadau cyhoeddus am gychwyn ymchwiliadau os yw er lles y cyhoedd i wneud hynny. Ers 1 Ebrill 2013, rydym wedi enwi dros 30 o elusennau y cychwynnwyd ymchwiliadau iddynt, drwy ddatganiadau o'r fath.

## Ydych chi’n ystyried sefydlu cwmni elusennol neu SCE?

Erbyn hyn gall elusennau anghorfforedig gydag incwm blynyddol o lai na £5,000 sefydlu SCE a throsglwyddo asedau iddo. Gall elusennau newydd sbon sy’n disgwyl cael incwm blynyddol o lai na £5,000 hefyd sefydlu SCE.

Rydym wedi diweddaru’r ffurflen gais ar-lein gyda rhai cwestiynau atodol i helpu ymgeiswyr newydd i roi atebion llawn a dangos sut mae eu sefydliad yn bodloni’r gofynion budd cyhoeddus newydd. Os ydych yn bwriadu sefydlu cwmni elusennol neu sefydliad corfforedig elusennol (SCE) a throsglwyddo asedau eich elusen iddo, dylech:

- ddarllen ein canllaw cyhoeddedig Bod yn Gwmni Elusennol neu’n SCE
- ceisio eich cyngor proffesiynol annibynnol eich hun os oes angen i sicrhau y gallwch wireddu eich cynlluniau
- sicrhau eich bod yn deall dibenion a budd cyhoeddus drwy ddarllen ein canllaw budd cyhoeddus cyhoeddedig
- gwirio sut i wneud cais a pha wybodaeth y mae ei hangen arnoch i wneud hynny drwy ddarllen y nodiadau canllaw i’r ffurflen gais
- gwneud yn siŵr bod yr elusen yn bodloni ei gofynion adrodd
- cynllunio ymlaen llaw os oes dyddiad cau hanfodol gennych, oherwydd derbyniwn lawer o geisiadau i gofrestru elusennau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth

## Ydy’r ymagwedd cyfanswm enillion at fuddsoddi yn addas i’ch elusen chi?

Rydym wedi cyhoeddi Rheoliadau newydd sy’n diwygio Deddf Elusennau 2011 gan ganiatáu i ymddiriedolwyr ymddiriedolaethau gwaddol parhaol i fabwysiadu ymagwedd cyfanswm enillion at fuddsoddi heb geisio caniatâd gennym ni yn gyntaf. Yn syml, mae ymagwedd cyfanswm enillion yn golygu y gall ymddiriedolwyr reoli eu buddsoddiadau i gael y mwyaf o’r enillion a gynhyrchir, boed o ddifidendau, llog neu enillion cyfalaf. Lefel yr enillion buddsoddi sy’n bwysig, yn hytrach nag o ble ddaw’r enillion. Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2014 ac mae’n amlinellu’r rheolau y mae’n rhaid i elusennau gwaddol parhaol eu dilyn i weithredu ymagwedd cyfanswm enillion.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio’r Rheoliadau, oherwydd teimlai nifer oedd wedi ymateb i’n hymgynghoriad cyhoeddus ar y ddeddfwriaeth ddrafft y byddai hynny’n ddefnyddiol.

Mae’r Rheoliadau yn gam arall at alluogi elusennau i fod yn hunangynhaliol. Fodd bynnag, mae’n bwysig cofio na fydd ymagwedd cyfanswm enillion yn addas i bob elusen gwaddol parhaol. Er bod y pŵer newydd hwn gan ymddiriedolwyr, dylent gofio bod y dewis arall - sef ceisio awdurdodaeth gennym ni i ddileu cyfyngiadau ar wario gwaddol parhaol - yn parhau.

### Gwarchod partneriaid

Mae Cranfield Trust yn darparu arbenigedd busnes i elusennau, gan reoli’r berthynas rhwng sefydliadau a rhwydwaith o arbenigwyr busnes sy’n barod i roi eu hamser a’u harbenigedd i helpu elusennau i ddarparu eu gwasanaethau yn effeithiol.

Mae ymgynghorwyr gwirfoddol yr ymddiriedolaeth yn rhoi cymorth ar ystod eang o faterion gan gynnwys adeiladu byrddau a thimau llwyddiannus, mentora Prif Weithredwyr elusennau, datblygu cynlluniau strategol a chanlyniadau busnes, gwella rheolaeth ariannol a materion AD. Mae hefyd yn cynnig cyngor a gwybodaeth ar faterion AD a chyflogaeth drwy’r gwasanaeth ar-lein, HRNet. Mae cymorth prosiect a HRNet yn rhad ac am ddim.